SKABBR2

Darparu triniaethau gofal croen i’r wyneb

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol *a *SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** **Mae'r safon yma'n ymwneud â darparu triniaethau i'r wyneb er mwyn gwella a chadw cyflwr y croen. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau diweddaraf a chyfarwyddyd am arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. Darparu triniaethau i'r wyneb

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn

2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau

3. trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon am ei gorff a'i groen, ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth i'r wyneb, i gynnwys:

3.1 hanes triniaethau

3.2 y gyfundrefn ar gyfer gofal o'r croen

3.3 ffordd o fyw

3.4 dewisiadau triniaeth amgen

4. cadarnhau a chytuno gyda’r unigolyn, ei fod wedi deall y drinaeth drydanol arfaethedig i’r wyneb, i gynnwys:

4.1 canlyniadau disgwyliedig

4.2 gwrth-weithredoedd

4.3 adweithiau niweidiol

4.4 teimlad corfforol

5. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer triniaeth i’r wyneb yn unol â gofynion cyfundrefnol ac yswiriant

6. paratoi a glanhau man triniaeth yr unigolyn yn unol â'r **protocol triniaeth i'r wyne***b**

7. taflu goleuni ar fan triniaeth yr unigolyn a'i chwyddo yn unol â'r protocol triniaeth drydanol i'r wyneb

8. gwneud dadansoddiad o'r croen, i gynnwys:

8.1 **dosbarthiad o'r croen**

8.2 **cyflwr y croen**

8.3 **math o groen**

9. paratoi:

9.1 glanhau dwfn

9.2 **diblisgio**

10. dewis techneg gynhesu a'i defnyddio yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb, i gynnwys:

10.1 tywel poeth
10.2 stêm

11. echdynnu comedon mewn modd effeithiol a diogel yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb

12. dewis cyfrwng tylino yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb, i gynnwys:

13. dodi'r **cyfrwng tylino** ***a defnyddio* *technegau tylino** fel ag y cytunwyd yn y protocol triniaeth i'r wyneb, i gynnwys:

13.1 ymlacio

13.2 **technegau tylino therapiwtig**

14. dewis, dodi a thynnu'r **cynnyrch mwgwd** yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb

15. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth i'r wyneb

16. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol

17. cwblhau'r driniaeth yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol

18. cwblhau cofnodion triniaeth yr unigolyn a'u cadw'n unol â deddfwriaeth data

19. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso'r driniaeth i'r wyneb a gweithredu'n briodol

20. rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth

21. cofnodi canlyniad y driniaeth i’r wyneb a’r gwerthusiad ohoni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau i'r wyneb a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

2. pam bod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol i chi eich hun a'ch adeilad

3. pwysigwrydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisïau gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am yr arfer orau ddiweddaraf

4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma

5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis a chyfeirio meddygol

6. pwysigrwydd adnabod nodweddion amheus afreolaidd ac anafiadau ar y croen, a chyfeirio at rywun proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd

7. diben triniaethau i'r wyneb, y defnydd ohonynt a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r canlynol:

7.1 cyflwr y croen

7.2 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol

7.3 ffactorau perthnasol yn ymwneud â'r ffordd o fyw

7.4 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

7.5 disgwyliadau'r unigolyn

8. yr adweithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â thriniaeth i'r wyneb a sut i ymateb iddynt

9. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn

ystod ac ar ôl y driniaeth i'r wyneb

10. pam ei bod yn bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon disgwyliadau yr unigolyn a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun triniaeth drydanol i'r wyneb

11. y strwythurau talu a dewisiadau ar gyfer triniaeth

12. y gofynion deddfwriaethol a digolleddiad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer triniaeth i'r wyneb

13. pwysigrwydd cadw at y protocol triniaeth i'r wyneb

14. y **technegau llaw** a ddefnyddir mewn triniaethau i'r wyneb

15. pwysigrwydd chwyddo a pharatoi man triniaeth yr unigolyn a thaflu goleuni arno pan yn gwneud dadansoddiad o'r croen

16. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

17. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn atal anghydnawsedd cynnyrch a risgiau i iechyd

18. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun triniaeth

19. y mathau o gynnyrch a **chyfarpar** gofal o'r croen a ddefnyddir mewn triniaethau i'r wyneb, ynghŷd â'u mantiesion a'u cyfyngiadau

20. sut i baratoi a defnyddio cynnyrch, offer a chyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth i'r wyneb

21. y risgiau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â mygydau sy'n cynhesu eu hunain

22. y risgiau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhisglau arwynebol iawn o'r croen, i gynnwys:

22.1 y raddfa pH a'i berthnasedd i sensitifrwydd y croen

22.2 yr hyn mae crynoadau o asid and alcalin yn ei wneud i'r croen

22.3 sut a pham mae swyddogaeth atal y croen yn cael ei niweidio

22.4 y risg cynyddol o ffotosensitifrwydd a ffyrdd o warchod y croen

22.5 sut a pham mae'n bwysig gwneud prawf ar y croen

23. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth

24. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol cydsyniol o fan triniaeth yr unigolyn, a’u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, a’r rhai deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol

25. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion yr unigolyn am y driniaeth i'w wyneb

26. canlyniadau disgwyliedig triniaeth i'r wyneb

27. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol

28. pwysigrwydd cofnodi canlyniad y driniaeth i’r wyneb a’r gwerthusiad ohoni

29. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth i'r wyneb

Cwmpas/Ystod

P*rotocol triniaeth i'r wyneb**

1.amgylchedd waith

2. iechyd a diogelwch

3. atal a rheoli haint

4. cynllun triniaeth

5. cydsyniad gwybodus

6. rheoli data

7. canlyniadau profion

8. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

9. archwilio ac atebolrwydd

10. cyfarwyddiadau a chyngor

11. cynaliadwyedd

12. rheoli gwastraff

13. ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth

14. ymarfer adfyfyriol

Dosbarthiad y croen

1. Graddfa Fitzpatrick

2. Phenoteip and genoteip

3. Graddfa Lancer

Cyflwr y croen

1. hydwythedd llac

2. gorliwio a thanliwio

3. tagedig

4. llinorog

5. bregus

6. fasgwlaidd

7. sensiteiddiedig

8. wedi sychu

9. ffoto sensitif

10. wedi ei niweidio gan olau

11. wedi sychu

12. wedi dylu

Math o groen

1. sych

2. olewog

3. wedi ei gyfuno

4. cytbwys

Diblisgiad

1. rhisglau arwynebol iawn o'r croen fel gyda'r stratum corneum
2. diblisgiad corfforol
3. diblisgiad cemegol

** ** **Cyfrwng tylino**

1. olew
2. hufen
3. serwm
4. di-olew

Technegau tylino

1. effleurage
2. petrissage
3. tapotement
4. ffrithiant
5. dirgryniadau

6. pwynt pwysedd
7. draenio lymphatig

** ** **Technegau tylino therapiwtig**

1. dadwenwyno

2. ysgogol

3. tonio

** ** ** ** **Cynnyrch mwgwd**

1. cynhesu ei hun
2. oeri
3. un sy'n gosod
4. un nad yw'n gosod

Cyfarwyddiadau ****1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd

2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth

3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig

4. triniaethau yn y dyfodol

Anatomeg a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaeth y croen
2. anatomeg a ffisioleg y corff dynol
3. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig
4. effeithiau ffisiolegol a chorfforol triniaethau gofal o'r croen

Technegau llaw

1. dadansoddiad o'r croen
2. glanhau
3. diblisgio
4. echdynnu comedon
5. tylino
6. dodi mwgwd
7. dodi lleithiwr
8. ffactor gwarchod rhag yr haul

Cyfarpar

1. golau chwyddo
2. dyfeisiadau cynhesu'r croen

3. technolegau digidol

Geirfa

Gwrtharwydd llwyr

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac all fod angen cael ei gyfeirio.

Adwaith niweidiol

Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. llewygu

Gwrth Weithred

Gwrth weithred yw adwaith 'ddisgwyliedig endocrinaidd neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. erythema

Technolegau digidol

Defnyddir technolegau digidol i ddarparu dadansoddiad gwyddonol o’r croen.

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael.

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb neu ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer orau a chydymffurfiad pan yn darparu gwasanaethau e.e. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Gwrthawrydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau

Cyflwr croen sensitif

Adweithedd capilaraidd genetaidd wedi ei gynyddu a swyddogaeth rhwystr wedi ei newid gan arwain at freuder cynhenid epidermol

Cyflwr croen sensiteiddiedig

Mae cyflwr croen sensiteiddiedig yn digwydd o ganlyniad i ffactorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r ffordd o fyw sydd naill ai'n cynyddu cytocinau a modylyddion llidiol neu'n llesteirio'r rhwystr croen.

Swyddogaeth rhwystro'r croen

Y rhwystr adnewyddol, biogemegol sy'n gwarchod ein systemau mewnol rhag ymosodwyr amgylcheddol a phathogennau, ac sy'n helpu i rwystro colli dŵr yn draws-epidermol. Wedi ei wneud o gelloedd wedi eu cornio, ffactorau sy'n lleithio'n naturiol, lipidau rhwystrol a meicrobiom y croen.

Rhaglen preimio'r croen

Mae rhaglen preimio'r croen yn set o gyfarwyddiadau a gall yr unigolyn eu gwneud cyn y driniaieth er mwyn cael y canlyniadau gorau.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNS1, SKABBR1, SKABN1, SKABN2, SKABN3, SKAB1, SKAB2, SKAB3, SKAB4, SKAB5, SKAB6,

SKAB7, SKAB8, SKAB9, SKAB10, SKAB11, SKAB12, SKABS1, SKABS2, SKABS2, SKABS3, SKABS4, SKABS5, SKABS6, SKABS7, SKAHDBMN1, SKAHDBRBNS2, SKAHDBRBNS3, SKAHDBRBNST2, SKAHDBRBNST3, SKAHDBRBNT1

SKABBR2

Darparu triniaethau gofal croen i’r wyneb

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	STABT4
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch
Cyfres/Set	Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	i’r wyneb, gofal o’r croen, twtio gwrywaidd